

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Rhagfyr, 2021**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen, Glyn Roberts, Carys E. Williams,

Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith, Michael Strain, Glenys Williams, Siôn Williams

72. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

73. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd dau ddatganiad a nodir hynny o dan yr eitem berthnasol.

74. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 8fed Tachwedd, 2021. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Carys H. Evans ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts.

Nid oedd unrhyw ymateb wedi cyrraedd yn dilyn y materion a godwyd yn y cyfarfod.

75. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais cynllunio yn ystod y mis.

76. MYNWENT LLANDEGWNING

Adroddodd y Clarc iddi dderbyn cynllun o'r giat newydd ar gyfer Mynwent Llandegwning gan Y Cyngorydd Carys H. Evans a chafwyd un cais am y cyfryw yn dilyn yr hysbyseb yn Llanw Llyn – ni ddaeth unrhyw bris gan yr unigolyn yma.

Fodd bynnag, daeth dau dendr i law – un drwy law mewn amlen gaeëdig a'r llall drwy e-bost. Gan mai dau aelod o'r Cyngor, Y Cyngorydd Dylan P. Jones a Glyn Roberts, gyflwynodd dendr bu iddynt ymneilltuo o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio.

Oherwydd i'r Cadeirydd fod a diddordeb yn yr eitem yma ac yn absenoldeb yr Is-Gadeiryddes cymerwyd y gadair am yr eitem yma gan Y Cyngorydd Carys H. Evans.

Agorodd y Cyngorydd Evans y tendr ddaeth i law mewn amlen gan ddarllen ei gynnwys i'r Cyngor ac yna darllenodd yr ail dendr ddaeth i law drwy e-bost.

Yn diyn trafodaeth **penderfynwyd** derbyn y tendr isaf o eiddo Glyn Roberts, Mur Poeth, Bryncroes am £525.

Gwahoddwyd y ddau aelod yn ôl i'r cyfarfod.

77. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd tynnu sylw'r Peiriannydd Rhanbarthol, Adran Priffyrdd, i'r materion a ganlyn:

a) Tyllau yn y ffordd o Bengopa i bentref Bryncroes angen sylw.

b) Y twll dwfn ger Capel Ty Mawr, Bryncroes, yn dal i beri pryder ac yn dyfnhau yn ddyddiol.

c) Twll dwfn wedi datblygu gyferbyn a iard Ty Mawr Capel, Bryncroes.
Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod llastr yn cael ei adael ar ôl gan y lori ailgylchu. Dywedodd y Clarc ei bod eisoes wedi anfon cŵyn, a dderbyniodd gan Y Cyngorydd Ifor Owen yn ystod y mis, ymlaen i'r Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ac ei bod yn dal i ddisgwyl atebiad.

78. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

Cyfeiriodd

a) Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, at gŵyn ddaeth i'w law bore'r Cyngor ynglyn a'r diffyg o gael apwyntiad a hynny gwta bum munud wedi'r llinellau ffôn agor yn y bore. Deallwyd fod y neges yn cyfleu mai galwadau argyfwng yn unig oedd yn cael blaenoriaeth hyd 8.30 y.b. a gofynnwyd y cwestiwn tybed a yw hyn yn broblem gan pan mae claf arall, nad yw'n ystyried eu gyflwr yn un brys, yn cael ei hysbysu fod pob apwyntiad am y dydd wedi mynd a hynny gwta bum munud wedi'r amser a nodir uchod.

Penderfynwyd anfon y gŵyn ymlaen i'r Feddygfa.

b) Y Clarc iddi gael cais gan Mr. Geraint Hughes, Bronllwyd Bach, Botwnnog, yn gofyn am yr hawl i anfon copi o lythyr dderbyniodd y Cyngor o Feddygfa Rhydbach yn dilyn sylwadau 'roedd wedi eu mynegi i'r Cyngor, a hynny i Mr. Dewi Roberts, Cynrychiolydd ar Fwrdd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru. Cafwyd gair â'r Cadeirydd ond y teimlad oedd y dylid cael sêl bendith y Cyngor cyn rhoddi'r caniatad.

Penderfynwyd ymholi âg Un Llais Cymru er cael eu sylwadau ar yr hawl i anfon y wybodaeth ymlaen.

79. **ADRODDIAD ADOLYGU DRAFFT – CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MON**

Nodwyd fod yr aroddiad yma i'w gweld arlein

www.gwynedd.llyw.cymru/clddiwygiedig ac fod y cyfnod ymgynghori yn cau ar 20fed Rhagfyr, 2021.

80. **RHEOLAU ETHOLIADOL LLEOL (PRIF ARDALOEDD)(CYMRU) RHEOLAU 2021 AC ETHOLIADAU LLEOL (CYMUNEDAU)(CYMRU) 2021**

Nodwyd llythyr dderbyniwyd gan Un Llais Cymru ynglyn a'r uchod er gwybodaeth.

81. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

HMRC £ 93.20 (siec 200739)

Y Clarc £372.55 (siec 200740)

Gan mai ond un aelod oedd yn bresennol i arwyddo'r sieciau rhoddwyd hawl i'r Clarc arwyddo'r ddwy siec yng ngŵydd yr aelodau – hyn oherwydd fod gan y Clarc ddiddordeb personol yn y taliadau y mis hwn.

(Noder mai'r enwau sydd wedi eu hawdurdodi i arwyddo sieciau ar ran y Cyngor yw'r Cyngorwyr David Brunelli, Ifor Owen, Glenys Williams a'r Clarc).

Wrth derfynu dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen i bob aelod a'u teuluoedd.